# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 22 Mai 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:41** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

### 2(i) Cofnodion cyhoeddus drafft

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

### 2(ii) Cofnodion preifat drafft

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu amser ddydd Mercher ar gyfer cynnig i ethol aelod o'r Pwyllgor Busnes.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn y Ddadl Fer ddydd Mawrth a dydd Mercher.

### 3(ii) **Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu amser ar gyfer yr eitem o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 20 Mehefin 2012**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Un Corff Amgylcheddol (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

## 4. Deddfwriaeth

### 4(i) **Memoranda Cydsyniad a osodwyd mewn perthynas â Gorchmynion o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011**

Nododd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Cydsyniad a osodwyd mewn perthynas â Gorchmynion o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a therfynau amser y Pwyllgor ar gyfer ystyried y Memorandwm. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Rheolwyr Busnes am y Gorchymyn.

**Busnes Arall**

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod unwaith eto broses y balot ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad, a gwnaethant gytuno i fonitro sut yr oedd yn gweithio.

Nododd y Pwyllgor mai hwn oedd y tro olaf y byddai Peter Black yn Rheolwr Busnes i'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y Pwyllgor, a bod Aled Roberts wedi'i enwebu i gymryd ei le. Diolchodd y Llywydd i Peter Black am ei gyfraniad i'r Pwyllgor Busnes yn ystod ei amser yn Rheolwr Busnes.